

# **Adroddiad Blynyddol Yr Iaith Gymraeg 2021-22**

**Mehefin 2022**

## **CYNNWYS**

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Cefndir**
- 3. Materion yn Codi Yn Ystod y Cyfnod Adrodd - Gweithredu'r Safonau:**
  - 3.1 Safonau Darparu Gwasanaeth**
  - 3.2 Safonau Llunio Polisi**
  - 3.3 Safonau gweithredol**
  - 3.4 Safonau cadw cofnodion**
- 4. Addysg cyfrwng Cymraeg**
- 5. Casgliadau ac Argymhellion**

## 1. Cyflwyniad

Dyma'r chweched Adroddiad Blynyddol ers i'r safonau ddod i rym ac mae'n rhoi trosolwg o'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022.

Mae Cyngor Abertawe yn parhau i fod yn ymrwymedig i Safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau ac uchafbwyntiau o brosiectau a gweithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn i fodloni'r safonau. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwaith neu gamau gweithredu o ganlyniad i unrhyw adborth, ymchwiliadau, neu waith monitro gan y Comisiynydd, neu o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Mae'n cloi gydag argymhellion wrth symud ymlaen.

## 2. Cefndir

Ers 30<sup>ain</sup> Mawrth 2016 mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi bod â dyletswydd statudol i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) ac â Safonau'r Gymraeg a osodir gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg).

Bwriad y safonau yw:

- sicrhau nad yw sefydliadau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd).

Nod y Safonau yw:

- ei gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg.
- ei gwneud yn gliriach i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg.
- gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

### 2.1 Safonau Cyngor Abertawe

Mae'r safonau a roddwyd i Ddinas a Sir Abertawe wedi'u rhestru mewn Hysbysiad Cydymffurfio - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae copi o'r safonau hyn ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor yn: <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg>  
<https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg>

Yr hysbysiad hwn, y cytunwyd arno gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu ein cydymffurfiaeth.

Mae'n ofynnol i Gyngor Abertawe gydymffurfio â **163 o safonau ar draws 5 categori** fel y dangosir yn nhabl 1, isod:

Tabl 1: Safonau ar gyfer cydymffurfio gan Gyngor Abertawe

Cyngor Abertawe		
	Categoriâu	Nifer y Safonau
1	Safonau Darparu Gwasanaeth	86
2	Safonau Llunio Polisi	16

3	Safonau gweithredol	51
4	Safonau hyrwyddo	2
5	Safonau cadw cofnodion	8
	<b>Cyfanswm</b>	<b>163</b>

## 2.2 Atebolrwydd

Mae arweinyddiaeth strategol ar gyfer y Gymraeg yn parhau gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Gweithredir y Safonau o ddydd i ddydd yn gorfforaethol drwy'r Swyddog Safonau i lawr i wasanaethau drwy Benaethiaid Gwasanaethau. Mae gan bob maes gwasanaeth Hyrwyddwr Iaith Gymraeg fel y brif sianel ar gyfer gwybodaeth (mewnol ac allanol) sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith a'u harferion. Mae'r Swyddog Safonau hefyd yn rheoli'r Uned Cyfieithu Cymraeg.

Mae'r Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu yn hyrwyddo Safonau'r Gymraeg ar lefel Wleidyddol.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (uwch reolwyr) a'r Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid (Pwyllgor Craffu).

Mae'r Polisi Cwynion Corfforaethol yn nodi proses y Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a hyfforddi staff.

### 3. Materion yn Codi Yn Ystod y Cyfnod Adrodd - Gweithredu Safonau

#### 3.1 Trefniadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi parhau i wneud gwelliannau ar weithredu safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn er gwaethaf y pandemig. Mae adborth cyffredinol yn dangos bod swyddogion wedi'u haddysgu'n well mewn perthynas â gofynion y Safonau.

Y flaenoriaeth o hyd yw canolbwyntio ar safonau Cyflwyno Gwasanaeth gan y nhw sydd uchaf o ran eu nifer (86), y rhai mwyaf gweladwy i'r cyhoedd, ac wedi denu'r meysydd cwynion yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar y Safonau Gweithredol yn enwedig gan eu bod yn berthnasol i'r gofynion mewn perthynas â gweithlu'r awdurdod.

Amlygir gweithgarwch cydymffurfio penodol yn ystod y flwyddyn isod ac yn yr adrannau diweddarach:

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2021-22	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
Safonau Darparu Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Prosiect e-ddemocratiaeth wedi'i gwblhau</li> <li>▪ Swyddog Safonau yn ei swydd</li> <li>▪ Prosiect awtomeiddio yn parhau</li> <li>▪ Y system gwynion yn parhau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Parhau ag awtomeiddio</li> <li>▪ Cwblhau'r system gwynion</li> </ul>
Safonau Llunio Polisi	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pob adroddiad drwy'r Cabinet/Cyngor wedi'i asesu o ran effaith ar yr Iaith Gymraeg drwy'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Monitro ac ymgorffori</li> </ul>
Safonau Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno proses panel torri amodau a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu dull llwyddiannus iawn sydd eisoes ar waith yn y Cyngor ar gyfer achosion o dorri data a llywodraethu gwybodaeth</li> <li>▪ Parhau i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg ar hafan mewnwyd y Cyngor ac mewn straeon newyddion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Proses panel torri amodau yn fyw</li> <li>▪ Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi'i ymgynnull</li> <li>▪ Parhau i archwilio Cymraeg gorfodol wrth recriwtio oni bai fod prinder penodol yn y farchnad ar gyfer sgil arbennig</li> <li>▪ Adolygiad o'r strategaeth pum mlynedd</li> <li>▪ Archwilio ffyrdd o ddenu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r Cyngor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach</li> </ul>
Safonau Hyrwyddo	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Adnewyddu'r wefan allanol wedi'i gwblhau. Haws dod o hyd i wybodaeth a chwilio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Adolygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg</li> </ul>

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2021-22	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Yn adnewyddu'r fewnrwyd i staff ar hyn o bryd. Cynllunio i dynnu sylw at yr adran laith Gymraeg ar yr hafan</li> <li>▪ Eisoes gofod baner ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg a dolenni i straeon newyddion Cymraeg</li> <li>▪ Diwrnod Hawliau'r laith Gymraeg a Dydd Santes Dwynwen</li> <li>▪ Adolygwyd gweithdrefnau brys a phrofiadau o'r pandemig o ran darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg</li> </ul>	
Safonau cadw cofnodion	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Y system gwynion yn parhau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cwblhau'r system gwynion</li> </ul>

### 3.1 Safonau Darparu Gwasanaeth

#### 3.1.1. Cyfeiriadau e-bost

Mae pob cyfeiriad e-bost unigol ac adrannol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gall trigolion a busnesau Cymraeg eu hiaith gysylltu drwy'r cyfeiriad Cymraeg. Disgwylir i staff roi eu cyfeiriad @swansea.gov.uk a'u cyfeiriad @abertawe.gov.uk yn eu llofnod e-bost. Yn ogystal, mae gan bob e-bost allanol droednodyn dwyieithog awtomataidd sy'n cynnwys:

*Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.*

*We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.*

#### 3.1.2 Ffôn

Yn ystod y cyfnod adrodd dewisodd 7,575 o alwyr i brif linellau'r Cyngor yr opsiwn i siarad â'r Cyngor yn Gymraeg. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y 2,771 o alwyr yn 2020-21 oherwydd TTP a'r Llinell Brechu Covid Genedlaethol a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe, sy'n cyfrif am 5,986 o'r galwadau hynny.

#### 3.1.3 Trefniadau Staffio

O ran yr Uned Cyfieithu Cymraeg, mae ffyrdd newydd pellach o weithio yn parhau i gael eu gweithredu. Ynghyd â defnyddio cymysgedd o gyfieithwyr mewnol ac allanol.

Mae amserlenni cyfieithu wedi gwella o ganlyniad i:

- Codi ymwybyddiaeth yn y Tîm Rheoli Corfforaethol ynghylch y Cwynion a dderbyniwyd
- Gwell cynllunio ymlaen llaw a chyfathrebu; a
- Gweithio gyda gwasanaethau mewn perthynas â gofynion cyfieithu blynyddol.

Yn ystod 2021-22, cyfieithodd y Cyngor ychydig dros 3.1 miliwn o eiriau (cynnydd o'r 2.4 miliwn o eiriau yn 2020-21). Yn ogystal, cyfieithwyd 751,068 o eiriau yn allanol.

Cyn y pandemig yn 2019-20 crëwyd ardaloedd "Cwtsh Cymraeg" i staff ymarfer Cymraeg pan yn y swyddfa. Roedd y rhith 'Cwtsh – Ysgrifennu yn Gymraeg' yn dal ar gael trwy gydol 2021-22 i Swyddogion ei ddefnyddio'n rhithwir.

Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg yn eu lle ar draws gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo Safonau'r Gymraeg.

Crëwyd swydd Swyddog Safonau i hybu capasiti corfforaethol o ran cydymffurfio. Mae'r Uned Cyfieithu Cymraeg yn wasanaeth ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT) a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2022-23 yn dilyn trafodaethau â CNPT.

### **3.1.4. Systemau Technegol**

#### System gwynion newydd

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu system newydd i'r cyhoedd gwyno i'r Cyngor, gan gynnwys ynghylch cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys swyddogaeth i aelod o'r cyhoedd gofnodi ac olrhain cynnydd eu cwyn yn ogystal â derbyn cyfathrebiadau diogel gan staff y Cyngor yn hytrach na derbyn e-byst. Bydd ail gam y datblygiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn wedyn yn ymgorffori ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau Cyrchu Gwrthrych Data yn ymwneud â safonau'r Gymraeg. Bydd y system yn gwella ehangder yr adrodd ac yn galluogi gwneud penderfyniadau a arweinir gan ddata a hyfforddiant wedi'i dargedu ynghylch Safonau'r Gymraeg a chydymffurfiaeth.

#### Uwchraddio Cynllunio Adnoddau Menter (ERP).

Mae system integredig graidd y cyngor o ran cyllid, adnoddau dynol, hyfforddiant, pwrcasu a symiau taladwy yn cael ei huwchraddio i'r fersiwn cwmwl. Mae safonau cadw cofnodion yn cael eu dilyn wrth gynhyrchu adroddiadau o'r system newydd.

### **3.1.5 Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae Deddf Safonau'r Gymraeg wedi cryfhau darpariaeth gwasanaethau dwyieithog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac o fewn y cyngor cyfan.

Mae Cyngor Abertawe'n hyrwyddo arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg i wella'r gwasanaeth a gynigir i ddinasyddion ac ymhlith staff sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwasanaethau cymdeithasol Abertawe wedi parhau i wella ansawdd gwasanaethau, arfer a gwella bywydau'r bobl hynny y mae eu dewis iaith yw Cymraeg.

Dyma rai o'r meysydd datblygu yn y Ddarpariaeth Gwasanaeth i Oedolion:

- Adlewyrchu diwylliant Cymreig o fewn ein holl wasanaethau
- Casglu gwybodaeth am sut rydym yn hyrwyddo diwylliant Cymreig yn ein gwasanaethau trwy ein harsylwadau ansawdd chwarterol
- Adnabod Hyrwyddwyr y Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal (Gwasanaethau Oedolion)
- Hyrwyddwyr Ffrindiau Dementia Cymru sy'n gwneud 'cynnig gweithredol' mewn cartrefi gofal/gwasanaethau dydd
- Cyflwyno sesiwn Ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia dwyieithog yn ein digwyddiad staff

- Poster cipio eiliadau arbennig ac adborth gan unigolion sy'n siarad Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg - Maesglas
- Bwrdd cyfathrebu cynhwysol yn y Gymraeg – Heol Alexandra
- Gwaith rhwng cenedlaethau gyda phlant ysgol (The Hollies / Pontarddulais)

Dyma beth o'r gwaith celf a barddoniaeth Gymraeg a luniwyd/ysgrifennwyd gan bobl oedd yn aros ym Maesglas.

Rhannwyd y gwaith celf hwn gan grŵp o'r defnyddwyr gwasanaeth a'i ddyluniodd – anfonwyd hwn at AGC ar gyfer dathliad Cymreig



**Ysgrifennodd un defnyddiwr gwasanaeth y gerdd hon:**

Dechreuodd Cofid  
 Stopiodd ein bywyd  
 Ond ddim I ni  
 Gofalwyr yw'r Gorau  
 Mae pobl yn marw  
 Dagrau yn cwmpo  
 O gwmpas celwyddau  
 Ond nid y gofalwyr!  
 Colomen wen, heddwch a chariad  
 Swnio'n ddramatig  
 Mae'n wir, welesi  
 Tra'n segur trwy'r ffyrlo  
 Netfflics a'r radio  
 Yn gofalu am y gorau tra'n gwisgo PPE  
 Mae'n wir, weles i  
 Dechreuodd Cofid a chariwn ymlaen  
 Wnath bywyd dim stopio  
 Gofalwyr yw'r Gorau!.

### **3.1.6 “Mwy Na Geiriau”, “More than Just Words”**

Mwy Na Geiriau “More than Just Words” - mae gwasanaethau cymdeithasol Abertawe yn gweithio ar draws pob gwasanaeth a thîm i barhau i weithredu'r fframwaith lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae Abertawe'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r Fforwm Mwy Na Geiriau a phartneriaethau rhanbarthol.

Cyfrannodd Abertawe nifer o enghreifftiau o arfer da i'r gwerthusiad cenedlaethol diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r strategaeth Mwy Na Geiriau.

Mae Cyngor Abertawe wedi estyn y cynnig i staff gofal cymdeithasol ddysgu Cymraeg trwy'r gwaith. Bellach mae cyrsiau'n rhedeg i lefel sylfaen, ac mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu hysbysebu'n eang ar fewnwyd y staff a thrwy #HyfforddiantDyddMawrth. Yn ogystal, mae cymorth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr newydd ar draws y sefydliad. Mae grŵp hyfforddiant Cymraeg corfforaethol sy'n cyfarfod i gydlynu cyfleoedd, i gefnogi ei gilydd ac i rannu arfer dda.

Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei hyrwyddo o fewn drysau ffrynt y gwasanaethau cymdeithasol (IAA) a ategir gan gynlluniau wrth gefn i sicrhau bod mynediad at weithiwr cymdeithasol neu staff sy'n siarad Cymraeg â'r holl wybodaeth ac sydd wedi'u hyfforddi i roi cyngor a chymorth. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei hyrwyddo o fewn gwasanaethau rheng flaen, yng nghyd-destun y pandemig.

#### **Tŷ Bonymaen**

Gofynnodd preswlydd Cymraeg ei hiaith am gael cyfarfod ei Thîm Amlddisgyblaethol (MDT), ac adolygiad o'i chynllun gofal a chymorth yn Gymraeg a phenodwyd Gweithiwr Cymdeithasol Cymraeg i sicrhau bod ei dymuniadau'n cael eu cyflawni. Roedd y fenyw yn hapus iawn bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn ei dewis iaith.

### **3.2 Safonau Llunio Polisi**

#### **3.2.1 Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae pob penderfyniad Llunio Polisi yn amodol ar broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) corfforaethol yr awdurdod, sy'n ystyried yr effaith bosibl y gallai'r fenter ei chael ar faterion Cydraddoldeb.

Er ei bod yn seiliedig ar ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) mae ein proses EIA benodol wedi ehangu'r set o baramedrau i gynnwys cyfeiriad penodol at Safonau'r Gymraeg a'n gofynion i'w bodloni. Mae canllawiau cysylltiedig yn atgyfnerthu'r gofynion hyn. Er bod dealltwriaeth o'r safonau wedi cynyddu'n gyffredinol, mae swyddogion yn aml angen esboniad a chymorth wrth gwblhau elfen iaith Gymraeg EIA. Un mater cyffredin yw methiant i drafod cynigion gyda siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.

Yn ystod 2021-22 cafodd pob adroddiad drwy'r Cabinet/Cyngor ei sgrinio/asesu ar gyfer effaith ar yr iaith Gymraeg drwy'r broses EIA.

#### **3.2.2 Safonau'r Gymraeg ar draws Cynlluniau Strategol**

Mae Cyngor Abertawe wedi ymgorffori ei waith ar Safonau'r Gymraeg ar draws ei gynlluniau strategol corfforaethol gan gynnwys:

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Cyngor** trwy ddefnyddio'r broses EIA ac fel cam i weithredu un o'r amcanion cydraddoldeb. Yn y CCS mae'r Cyngor wedi cynnwys ystyriaeth o'r iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchoddedig ehangach o ran ein hymagwedd at gydraddoldeb
- **Adolygiad Perfformiad Blynyddol Abertawe** – Mae'r Gymraeg yn cael ei hamlygu fel blaenoriaeth ar gyfer Addysg, yn disgrifio sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, a sut mae'r Cyngor yn hyfforddi staff
- **Cynllun Corfforaethol Abertawe** – Y Gymraeg fel camau yn amcanion llesiant Addysg a Sgiliau a Thrawsnewid a Datblygu Cyngor y Dyfodol.

### **3.3 Safonau Gweithredu**

### 3.3.1 Adnoddau i Staff

Mae Safonau Gweithredu yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn swyddogaethau mewnol y Cyngor gan gynnwys y berthynas rhwng yr Awdurdod a'i weithwyr (gan gynnwys yn ystod recriwtio a phenodi), drwy:

- Annog a chynorthwyo staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith arferol o ddydd i ddydd
- Darparu fframwaith cefnogol i staff wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Comisiynodd yr Adran Adnoddau Dynol y gwaith o gyfieithu polisiau a gweithdrefnau yn unol â'r safonau ac mae'r rhain ar gael i unrhyw aelod o staff yn ogystal ag ar wefan y Cyngor.

Mae mynediad i feddalwedd i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg (ee gwirio sillafu a gramadeg MSOffice; a chyfieithu awtomatig) ar gael fel ychwanegiad safonol. Mae gan StaffNet adran 'laith Gymraeg' <http://www.swansea.gov.uk/staffnet/welsh> sy'n cynnwys adnoddau ategol ar gyfer staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, sy'n cynnwys:

- Trosolwg o'r Safonau, gan gynnwys gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg
- Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a ddatblygwyd i ddarparu rhywfaint o gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol i'r Gymraeg a'i lle yn y gymdeithas fodern
- Canllawiau Defnyddiol, pob un yn rhoi arweiniad cyflym i faes penodol o'r safonau, e.e.:
  - llinellau ffôn
  - e-bost
  - trefnu cyfarfodydd
  - dylunio arwyddion
- Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg - Cyfieithiadau Safonol y gellir eu chwilio ar Staffnet i gynorthwyo gyda chynhyrchu gwybodaeth safonol gyda symiau bach o ddata amrywiol, er enghraifft:
  - dyddiadau, amseroedd, lleoliadau
  - negeseuon awtomatig (allan o'r swyddfa)
  - arwyddion ad hoc safonol
- Canllaw i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog - rheolau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i ddiwyddiadau a gwybodaeth arall ar Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill.
- Manylion sesiynau dysgu ac ymarfer Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau allanol a restrir ar y wefan <http://www.swansea.ac.uk/learnwelsh/>
- Digwyddiadau cymdeithasol allanol rheolaidd trwy wefan Menter Iaith Abertawe
- Hyfforddiant iaith Gymraeg i staff - wedi'i dargedu i ddechrau at staff rheng flaen mewn meysydd lle canfuwyd nad oedd digon o siaradwyr Cymraeg
- Manylion Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg y gwasanaeth.

### 3.3.2 Staffnet – Defnydd staff a hyrwyddo'r Gymraeg

Cafwyd dros 2,156,156 o ymweliadau â thudalennau ar Staffnet yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd 19,003 o'r rhain yn ymwneud â'r Gymraeg. Y 10 tudalen uchaf o ran y Gymraeg ar Staffnet rhwng 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022 yw:

Teitl y Dudalen	Gweld y dudalen
Staffnet Abertawe - Cael rhywbeth wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg	10,564

Teitl y Dudalen	Gweld y dudalen
Staffnet Abertawe - Gwersi Cymraeg i staff	971
Staffnet Abertawe - y Gymraeg	400
Staffnet Abertawe - 'Peidiwch â defnyddio Google Translate ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg' mae ein gwasanaeth cyfieithu mewnol yn annog (stori newyddion)	349
Staffnet Abertawe – Staff ac ysgolion yn dweud Shwmae (stori newyddion)	196
Staffnet Abertawe - Canllawiau Cymraeg hwylus a gwybodaeth ddefnyddiol	195
Staffnet Abertawe - Cydnabod dysgwyr Cymraeg mewn rhith seremoni (stori newyddion)	186
Staffnet Abertawe - Nodyn atgoffa cyfieithiad Cymraeg (stori newyddion)	175
Staffnet Abertawe - Wedi cael ymholiad yn Gymraeg? Atebwch yn Gymraeg (stori newyddion)	175
Staffnet Abertawe - Ymadroddion a geiriau Cymraeg	132

### 3.3.4 Staff a Sgiliau Iaith Gymraeg

Gellir gweld y data diweddaraf a ddarparwyd gan staff yn y tablau canlynol:

**Cyfanswm y staff â Sgiliau Cymraeg (ac eithrio ysgolion) = 662 (cynnydd o 416 yn 2020-21)**

**% gyda sgiliau Cymraeg yn erbyn nifer gweithwyr y Cyngor (ac eithrio ysgolion) = 10.24% (cynnydd o 6.8% yn 2020-21)**

	Deall Cymraeg llafar	Siarad Cymraeg	Darllen Cymraeg	Ysgrifennu Cymraeg	Dysgu Cymraeg	Yn fodlon defnyddio yn ystod eich gwaith
Ydw	257	194	206	168	192	454
Nac ydw	72	65	67	67	71	294
Heb ei Nodi	1379	1449	1435	1473	1445	898
Dewis peidio â dweud	0	0	0	0	0	62

### Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth:

Adran	Nifer y Staff â Sgiliau Iaith Gymraeg	Nifer y Staff heb Sgiliau Iaith Gymraeg	Canran y Staff â Sgiliau Iaith Gymraeg
Lle	275	436	38.7%

Gwasanaethau Corfforaethol	61	93	39.6%
Cyllid	13	33	28.3%
Addysg ac eithrio ysgolion	60	132	31.3%
Gwasanaethau Cymdeithasol	253	352	41.8%

**Dadansoddiad fesul Gradd (ac eithrio ysgolion):**

Gradd	Nifer yr Unedau
Prif Swyddog 1-5 01-05	1
GRADD_01 01	4
GRADD_02 03	68
GRADE_02A 03A	26
GRADD_03 04	91
GRADE_03A 04A	1
GRADD_04 05-06	101
GRADE_04A 05A-06A	23
GRADD_05 07-09	290
GRADE_05A 07A-09A	3
GRADD_06 11-17	267
GRADD_07 19-24	231
GRADD_08 25-29	175
GRADD_09 30-34	132
GRADD_10 35-39	72
GRADE_10A 35-37	31
GRADD_10B 38-39	11
GRADD_11 40-44	38
GRADD_12 45-49	18
Band HOS_1 07-13	2
Band HOS_2 03-09	3
Band HOS_3 01-05	1
Isafswm Cyflog 025 025	2
Isafswm Cyflog APP APP	12
Isafswm Cyflog  016-022	3

**Gweithlu Ysgolion**

Adroddir ar y cyfrifiad gweithlu ysgolion i Lywodraeth Cymru yn y fformat penodol hwn:

**Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion 2021 : Gallu yn y Gymraeg**

Pob ysgol	Cyfrif pennau			Canran y Cyfrif Pennau		
	Athrawo n	Cymorth	Cyfa nsw m	Athrawo n	Cymorth	Cyfans wm
Lefel						

Lefel Hyfedr	402	237	639	19.2%	9.1%	13.6%
Lefel Uwch	74	37	111	3.5%	1.4%	2.4%
Lefel Ganolradd	181	54	235	8.6%	2.1%	5.0%
Lefel Sylfaen	442	203	645	21.1%	7.8%	13.7%
Lefel Mynediad	557	910	1467	26.6%	35.0%	31.2%
Dim sgiliau iaith	437	1152	1589	20.9%	44.3%	33.8%
Gwybodaeth heb ei chael eto	2	9	11	0.1%	0.3%	0.2%
<b>Cyfanswm terfynol</b>	<b>2095</b>	<b>2602</b>	<b>4697</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Cyfrwng Saesneg yn unig	Cyfrif pennau			Canran y Cyfrif Pennau		
	Athrawo n	Cymorth	Cyfanswm	Athrawo n	Cymorth	Cyfanswm
Lefel Hyfedr	125	46	171	6.9%	1.9%	4.1%
Lefel Uwch	68	23	91	3.8%	1.0%	2.2%
Lefel Ganolradd	181	51	232	10.0%	2.1%	5.5%
Lefel Sylfaen	442	203	645	24.4%	8.5%	15.3%
Lefel Mynediad	557	910	1467	30.7%	38.1%	34.9%
Dim sgiliau iaith	437	1148	1585	24.1%	48.0%	37.7%
Gwybodaeth heb ei chael eto	2	9	11	0.1%	0.4%	0.3%
<b>Cyfanswm terfynol</b>	<b>1812</b>	<b>2390</b>	<b>4202</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Cyfrwng Cymraeg yn unig	Cyfrif pennau			Canran y Cyfrif Pennau		
	Athrawo n	Cymorth	Cyfanswm	Athrawo n	Cymorth	Cyfanswm
Lefel Hyfedr	277	191	468	97.9%	90.1%	94.5%
Lefel Uwch	6	14	20	2.1%	6.6%	4.0%
Lefel Ganolradd		3	3	0.0%	1.4%	0.6%
Lefel Sylfaen				0.0%	0.0%	0.0%
Lefel Mynediad				0.0%	0.0%	0.0%
Dim sgiliau iaith		4	4	0.0%	1.9%	0.8%
Gwybodaeth heb ei chael eto				0.0%	0.0%	0.0%
<b>Cyfanswm terfynol</b>	<b>283</b>	<b>212</b>	<b>495</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

### 3.3.5 Swyddi Newydd a Gwag

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd gan yr awdurdod ac mae'n nodi'r lefelau o Sgiliau Iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Lefel 1 yw'r lefel fwyaf sylfaenol o ddealltwriaeth a Lefel 5 yw'r lefel fwyaf datblygedig. Mae'r cais am sgiliau Cymraeg fel rhai dymunol wedi cynyddu'n sylweddol o 316 y llynedd i 511 yn 2021-22. Yn y flwyddyn i ddod bydd y Cyngor yn archwilio:

- Ffyrdd o ddenu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r Cyngor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach

- b) Cymraeg gorfodol wrth recriwtio oni bai bod prinder penodol yn y farchnad ar gyfer sgil arbennig.

Lefel y sgiliau Cymraeg sydd ei hangen	Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd
Lefel 1	463
Lefel 2	3
Lefel 3	0
Lefel 4	0
Lefel 5	0
Nid yw'n ofynnol	557
Dymunol	511
I'w Ddysgu	0
Hanfodol	2

### 3.3.6 Hyfforddiant Staff

Sefydlwyd Grŵp Cefnogi Hyfforddiant Iaith Gymraeg, sy'n cyfarfod yn fisol er mwyn gwella cyfleoedd i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg.

Mae dogfen Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg, sy'n nodi cynigion ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y Cyngor, yn y broses o ymgynghori

O ran hyfforddiant ffurfiol, yn 2021/22 cynhaliwyd cyrsiau ar gyfer staff ar Fynediad Lefelau 1 a 2 a Sylfaen Lefelau 1 a 2.

- 12 cyfranogwr ar Lefel Mynediad 1 (I lawr 15 ers y llynedd)
- 12 cyfranogwr ar Lefel Mynediad 2 (I fyny 4 ers y llynedd)
- 5 ar Lefel Sylfaen 1 (I fyny o 1 llynedd)
- 6 ar Lefel Sylfaen 2.

### 3.3.7 Cwtsh Cymraeg

Roedd 'Cwtsh – Ysgrifennu yn Gymraeg' rithwir Teams Microsoft ar gael trwy gydol y flwyddyn i Swyddogion ei ddefnyddio'n rithwir.

### 3.3.8 Cyfathrebu â Staff

Mae cyfathrebiadau a gyhoeddir yn ganolog ac a anfonir at grwpiau o staff yn Saesneg (fel a ganiateir dan y safonau).

### 3.3.9 Cyfarfodydd

Cyfarfodydd hybrid bellach yw'r prif fodel ar gyfer cyfarfodydd, gyda'r nod o annog mwy o gyfranogiad yn y broses ddemocrataidd gan gynnwys gan siaradwyr Cymraeg. Er mai Teams yw'r offeryn corfforaethol o hyd, mae trwyddedau Zoom hefyd wedi'u caffael ar gyfer hwyluswyr i alluogi cyfieithu ar y pryd.

## 3.4 Safonau Cadw Cofnodion

### Cwynion

Ymdrinnir â chwynion sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn y Gymraeg am unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaeth yn unol â pholisi cwynion corfforaethol y Cyngor. Adolygwyd a diweddarwyd y Polisi Cwynion.

Mae Adran 13 o'r Polisi Cwynion diwygiedig yn ymdrin yn gyfan gwbl â chwynion am y Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'r Safonau. Mae'r Polisi yn nodi'r broses, amserlenni, swyddogion cyfrifol, a hyfforddiant staff a chyfathrebu ynghylch cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Fel yr amlygwyd yn gynharach yn adran 3.1.4, bydd y system gwynion newydd a'r system ERP wedi'i huwchraddio yn gwella ehangder yr adrodd. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau a arweinir gan ddata a hyfforddiant wedi'i dargedu ynghylch Safonau'r Gymraeg a chydymffurfiaeth.

Derbyniwyd chwe chwyn am yr iaith Gymraeg yn uniongyrchol i'r Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd Ebrill 2021 – Mawrth 2022. Ymgwymerir â rhagor o ymwybyddiaeth staff, yn enwedig ynghylch y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau gan fod yr holl gwynion yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r categori hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys:

<b>Grŵp Safonau</b>	<b>Manylion Cwyn</b>	<b>Gweithredwch</b>
Safonau Darparu Gwasanaeth	Arwyddion ychwanegol, gwaith papur, arian ac ati sy'n cael ei wario gan y Cyngor ar ddarparu gwasanaethau yn unol â Safonau'r Gymraeg.	Ymateb: Mae cyfraith Llywodraeth Cymru yn mynnu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac mae cydymffurfio â chyfreithiau Safonau'r Gymraeg yn golygu ei bod yn orfodol i'r Cyngor ddilyn y canllawiau hyn ac rydym yn ymdrechu i wneud hynny.  Nodaf eich sylwadau ond mae gweithredu Safonau'r Gymraeg yn orfodol felly dylid cyfeirio eich sylwadau at Lywodraeth Cymru.
Safonau Darparu Gwasanaeth	Cyfieithiad Cymraeg o arwydd mewn parc yn anghywir	Ni chyflwynwyd testun i'r uned gyfieithu i'w gyfieithu. Mae'r Adran wedi cael gwybod bod rhaid anfon pob dogfen sydd angen ei chyfieithu i'r Uned Gyfieithu.
Safonau Darparu Gwasanaeth	Cymraeg yn gyntaf ar beiriannau talu meysydd parcio	Ymateb: Mae Cyngor Abertawe'n cadw at ddeddfwriaeth a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg, sy'n nodi y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru hwyluso'r Gymraeg o fewn swyddogaeth y peiriant talu ac arddangos. Ym mhob peiriant awtomataidd, megis peiriannau talu am barcio, Cymraeg yw'r brif iaith gydag opsiwn ar gyfer Saesneg.
Safonau Darparu Gwasanaeth	Arwyddion Dim Beiciau wedi'u cyfieithu'n anghywir	Ymateb: Diolch am eich adroddiad ac am dynnu sylw at y gwall. Roedd yr arwyddion yn Blackpill yn cael eu hadnewyddu ond nodwyd mai uniaith Saesneg oedd yr arwyddion hyn yn wreiddiol ac felly fe drefnwyd fersiwn ddwyieithog gyda chylch i bwysleisio'r

Grŵp Safonau	Manylion Cwyn	Gweithredwch
		arwyddion. Darparodd y contractwr y geiriad a gymerwyd i fod yn arwydd safonol. Roedd hyn yn amlwg yn gamgymeriad ond mae'r Contractwr wedi cydnabod y camgymeriad ac mae'r arwyddion yn cael eu cywiro heddiw
Safonau Darparu Gwasanaeth	Diffyg “^” uwchben yr “o” yn Mor. Diffyg cyfieithiad Cymraeg ar gyfer “privately held road”.	Mae ffyrdd heb eu mabwysiadu ac nid y Cyngor sy'n gyfrifol amdanynt. Achwynydd wedi'i gyfeirio at Bellway Homes
Safonau Darparu Gwasanaeth	Cymraeg yn gyntaf ar beiriannau talu meysydd parcio	Ymateb: Mae Cyngor Abertawe'n cadw at ddeddfwriaeth a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg, sy'n nodi y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru hwyluso'r Gymraeg o fewn swyddogaeth y peiriant talu ac arddangos. Ym mhob peiriant awtomataidd, megis peiriannau talu am barcio, Cymraeg yw'r brif iaith gydag opsiwn ar gyfer Saesneg.

#### 4. Addysg cyfrwng Cymraeg

Mae cysylltiad sylfaenol rhwng datblygiad y Gymraeg yn y dyfodol ar draws Abertawe a thu hwnt ac addysg cyfrwng Cymraeg ac ymdrinnir â'r agwedd hon yn benodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y cyngor. Ymgynghorwyd ar hyn yn hydref 2021 ac fe'i cymeradwywyd gan Gabinet y cyngor ym mis Ionawr 2022. Fe'i cyflwynwyd wedyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ac yn dilyn adborth gan y Gweinidog mae bellach wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo'n derfynol. Bydd y cynllun yn mynd yn fyw ym mis Medi 2022.

Mae 10 ysgol gynradd Gymraeg yn bwydo i mewn i'r ddwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe.

Ar hyn o bryd mae nifer y myfyrwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn y tair ystod oedran a chanran gyffredinol pob ystod wedi'u hamlinellu yn y tablau isod.

##### 2021-2022

Cofrestrau Ysgol	Cyfanswm y ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Canran y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cynradd	21394	3133	<b>14.64%</b>
BI7-11	12871	1720	<b>13.36%</b>
B12-B13	1420	294	<b>20.70%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,685</b>	<b>5,147</b>	<b>14.42%</b>

**2020-2021**

Cofrestrau Ysgol	Cyfanswm y ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Canran y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cynradd	21159	3157	<b>14.92%</b>
BI7-11	12859	1674	<b>13.02%</b>
B12-B13	1507	315	<b>20.90%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,525</b>	<b>5,146</b>	<b>14.49%</b>

**2019-2020**

Cofrestrau Ysgol	Cyfanswm y ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Canran y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cynradd	22190	3519	<b>15.9%</b>
BI7-11	12331	1503	<b>12.2%</b>
B12-B13	1358	273	<b>20.1%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,879</b>	<b>5,295</b>	<b>14.8%</b>

**2018-2019**

Cofrestrau Ysgol	Cyfanswm y ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Canran y myfyrwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cynradd	22147	3306	<b>14.9%</b>
BI7-11	12246	1503	<b>12.3%</b>
B12-B13	1318	273	<b>20.7%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,711</b>	<b>5,082</b>	<b>14.2%</b>

Yn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, enillodd 88.0% yn 2021 o fyfyrwyr raddau A\*- C, ac roedd y niferoedd a safodd y pwnc hwn (292 o gofrestriadau) yr uchaf a welwyd yn y pum mlynedd diwethaf.

Yn TGAU Cymraeg Ail Iaith enillodd 74.8% yn 2021 raddau A\*- C gyda 1736 o gofrestriadau, ond roedd carfan 2021 ychydig yn llai na 2020.

Mae perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gryf yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, ond ni chasglwyd unrhyw ddata yn 2020 na 2021 oherwydd y pandemig.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

Gwnaeth adroddiad y llynedd nifer o argymhellion. Mae'r canlynol wedi'u cwblhau:

- a) O ran deunyddiau hyrwyddo, adolygwyd gweithdrefnau brys a phrofiadau o'r pandemig o ran darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
- b) Cwblhawyd y prosiect e-ddemocratiaeth – gwella cyfranogiad mewn cyfarfodydd cyhoeddus
- c) Mae'r Swyddog Safonau newydd bellach yn ei swydd
- d) Mae'r effaith ar y Gymraeg bellach wedi'i gwreiddio'n llawn yn yr Asesiad Effaith Integredig (IIA).

Mae'r meysydd gwaith sydd ar y gweill ac sy'n parhau yn cynnwys:

- a) Gwella ymwybyddiaeth staff o'r safonau darparu gwasanaeth - dyma oedd y prif gategori o gwynion yn ystod y flwyddyn
- b) Sesiynau hyfforddi / ymwybyddiaeth i lunwyr polisi ar ganllawiau'r cod ymarfer i sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hasesu'n drylwyr a'i bod yn ystyrlon
- c) Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- d) Cwblhau'r prosiect awtomeiddio yn yr Uned Cyfieithu Cymraeg
- e) Cwblhau'r system gwynion ar-lein newydd
- f) Adolygu a diweddarau'r strategaeth a'r cynllun pum mlynedd
- g) Fel rhan o'r gwaith strategaeth, archwilio ffyrdd o ddenu siaradwyr Cymraeg o ysgolion cyfrwng Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach i weithio i'r Cyngor.
- h) Treialu'r broses panel torri amodau – mae hyn eisoes yn gweithio'n dda ar gyfer diogelu data a'r gobaith yw y gellir adlewyrchu'r broses ar gyfer gwaith cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- i) Adolygu'r Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu
- j) Archwilio Cymraeg gorfodol wrth recriwtio oni bai fod prinder penodol yn y farchnad ar gyfer sgil arbennig.